

Peidiwch â gadael i'ch ci fynd yn boeth yn y car yr Haf yma

Mae'r rhan fwyaf o bobl wedi clywed y rhybuddion ynghylch cŵn yn marw mewn ceir poeth, ond eto mae llawer o gŵn yn mynd i ddiodeff, a hyd yn oed yn marw yn ystod tywydd poeth bob blwyddyn oherwydd iddynt gael eu gadael mewn ceir. Yn aml does dim modd darogan y tywydd, ac mae'r tymheredd yn yr haf yn codi bob blwyddyn.

Ffeithiau:

- O fewn 10 munud gall tymheredd car wedi'i barcio gyrraedd dwbl y tymheredd y tu allan i'r car.
- Os bu'r aerdymheru ymlaen yn ystod y daith, gall tymheredd y car gyrraedd yr un tymheredd â'r tu allan o fewn pum munud.
- 'Dyw gadael yr aerdymheru ymlaen mewn car heb neb i ofalu amdano yn cael ei argymhell gan fod ceir modern yn diffodd hwnnw ar ôl ychydig ac mae cŵn wedi marw oherwydd bod y system yn chwythu aer poeth i mewn i'r car.
- 'Dyw gadael ffenest' ar agor yn gwneud fawr ddim gwahaniaeth i dymheredd y car a gall powlen o ddŵr yn y car wneud y sefyllfa'n waeth gan ei fod yn lleihau gallu'r ci i ddyheu'n effeithiol (i gael gwared â'r gormodedd lleithder i'r aer fel ffordd o oeri).

Gall pob ci ddiodeff gan drawiad gwres ond cŵn ifanc/hen iawn, cŵn hirflew a chŵn byrdrwyn sy'n diodeff fwyaf yn aml. Peidiwch â gadael ci ar ei ben ei hun mewn car, dim hyd yn oed am bum munud, sy'n gallu bod y cwbl y mae'n ei gymryd i roi eich ci mewn perygl.

Os gwnewch chi adael eich ci mewn car ac yr ymddengys ei fod yn diodeff, gall rhywun dorri i mewn i'ch car i ryddhau'r ci, gellir mynd â'r ci o'ch gofal yn barhaol ac fe ellir ei ystyried yn greulondeb wrth anifeiliaid. Mae hyn yn gosbadwy o dan **Y Ddeddf Lles Anifeiliaid 2006** drwy ddirwy o hyd at £20,000 a blwyddyn yn y carchar.

Iechyd Anifeiliaid a Thrwyddedu, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun.
LL15 1YN.

Rhif ffôn: (01824) 706086 / 706189 Ffacs: (01824) 706067
Ebost: iechydanifeiliaid@sirddinbych.gov.uk

